

CYNGOR YMGYNGHOROL SEFLYDOL AR ADDYSG GREFYDDOL (CYSAG)

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Chwefror 2024

PRESENNOL: Y Cynghorydd Non Dafydd (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Arfon Wyn (Is-Gadeirydd)

Yr Awdurdod Addysg

Y Cyngorwyr Gwilym O Jones, Dylan Rees

Yr Enwadau Crefyddol

Mrs Elaine Green (Yr Eglwys Bresbyteriaid yng Nghymru)
Mr Edward Morus Jones (Undeb yr Annibynwyr Cymraeg)
Mrs Collette Owens (Yr Eglwys Gatholig)
Y Parch. Deborah Stammers (Undeb Bedyddwyr Cymru)

Cynrychiolwyr Athrawon

Mrs Manon Morris-Williams (Ysgol Santes Dwynwen)

Aelod Cyfetholedig

Mr Rheinallt Thomas (ymunodd am 11:30am)

WRTH LAW: Mr Marc Berw Hughes (Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc)
Mr Owen T Davies (Uwch Reolwr Cynradd, Addysg)
(Ymgynghorydd Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg y CYSAG)
Mrs Shirley Cooke (Swyddog Pwyllgorau)

YMDDIHEURIADAU: Y Parch. Neil Ridings (Yr Eglwys yng Nghymru)

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

Rhannodd y Cadeirydd y newyddion torcalonnus am farwolaeth Miss Bethan James, Ymgynghorydd Cefnogi Gwella y CYSAG a chydymdeimlodd â phawb a oedd yn ei hadnabod. Gofynnodd i Mr Owen Davies dalu teyrnged i Miss James, a oedd yn gyfaill a chydweithiwr iddo am dros 20 mlynedd.

Dywedodd Mr Owen Davies bod Miss Bethan James yn berson caredig a gofalgwr a'i bod wedi gweithio â'r CYSAG ers nifer o flynyddoedd. Dywedodd ei bod yn addysgwyr gwych ym maes y Dyniaethau a bod ganddi doreth o wybodaeth ac arbenigedd yn y maes hwn. Dywedodd y bydd colled fawr i GYSAG Ynys Môn ar ei hôl.

Bu i'r Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc ategu'r hyn a ddywedwyd eisoes am ei gyfaill a'i gydweithiwr. Dywedodd ei fod wedi gweithio'n agos iawn â Miss James dros y deg mlynedd diwethaf, ac y bydd colled fawr i addysg ar Ynys Môn ar ei hôl, ac i gymaint o bobl ar lefel bersonol.

Cynhaliwyd munud o dawelwch i gofio am Miss Bethan James.

1 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Bu i'r Cynghorydd Dylan Rees ddatgan buddiant personol mewn perthynas ag Eitem 6 ar yr agenda, gan ei fod yn aelod o'r Symudiad Arloesi (*Pioneer Movement*).

2 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y CYSAG ar 16 Tachwedd 2023 a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

Materion yn codi o'r cofnodion: -

- Rhoddodd yr Uwch Reolwr Cynradd ddiweddariad ar yr adnoddau sydd ar gael ar Hwb i ysgolion a'r CYSAG, yn cynnwys yr E-lythyrau ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg i gefnogi'r gwaith o ddylunio'r cwricwlwm. Dywedodd bod modiwlau dysgu ar gael i gefnogi'r sector cynradd ac uwchradd ynghyd â dolenni i gyflwyniadau ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Bydd yn rhannu'r rhain â'r CYSAG.
- Mewn perthynas â chasglu gwybodaeth ar leoliadau crefyddol ac ysbrydol ar Ynys Môn, bydd y mater yn cael ei drafod yn ystod Eitem 5 ar yr agenda.
- Mae Prosiect Pererin yr Eglwys yng Nghymru yn mynd rhagddo a'r gobaith yw gwahodd aelod o'r prosiect i gyfarfod nesaf y CYSAG i roi diweddariad ar y gwaith o baratoi adnoddau i ysgolion.

3 CYMDEITHAS CYSAGAU CYMRU (CCYSAGauC)

Cyflwynwyd cofnodion drafft cyfarfod CCYSAGauC a gynhaliwyd yn rhithiol ar 25 Hydref 2023 er gwybodaeth a chawsant eu nodi.

Gofynnodd y Cadeirydd am enwebiadau i Bwyllgor Gwaith Cymdeithas CYSAGau Cymru. Dywedodd y dylid anfon unrhyw enwebiadau at Ysgrifennydd CCYSAGauC erbyn 22 Mawrth 2024.

Rhoddodd aelod o'r CYSAG wybod i'r Pwyllgor y cynhelir Cynhadledd CCYSAGauC yn Wrecsam ar 13 Mehefin 2024. Adroddodd yr Uwch Reolwr Cynradd y bydd y gwahoddiadau yn cael eu hanfon i'r CYSAG yn dilyn y cyfarfod heddiw.

PENDERFYNWYD y bydd yr Uwch Reolwr Cynradd yn anfon neges at yr aelodau ddechrau mis Mawrth 2024 i'w hatgoffa'r ynglŷn â'r gwahoddiad i gynnig enwebiadau i Bwyllgor Gwaith CCYSAGauC.

4 TEITHIAU DYSGU - YSGOL BODFFORDD

Adroddodd y Cadeirydd ei bod wedi ymweld ag Ysgol Bodffordd gyda Mr Edward Morus Jones ar 'daith ddysgu' ar 6 Chwefror 2024. Roedd crynodeb o'r ymweliad wedi'i gynnwys yn y pecyn adroddiadau. Fel rhan o'r ymweliad, cafodd aelodau'r CYSAG gyfle i weld y plant yn cymryd rhan mewn gwasanaeth torfol, a'r thema oedd 'cariad a charedigrwydd'.

Rhododd Mr Edward Morus Jones adborth yn dilyn yr ymweliad a dywedodd bod gan Ysgol Bodffordd bennaeth, 3 athro a 85 disgybl. Dywedodd bod y disgyblion wedi trafod ystyr y gair haerllugrwydd (arrogance) a phwysigrwydd bod yn garedig. Atebodd y plant gwestiynau a dywedodd bod pobl o'r gymuned yn dod i'r ysgol i gymryd rhan mewn gweithgareddau e.e. 'Agor y Llyfr'. Roedd plant yr ysgol hefyd yn medru adrodd rheolau'r ysgol ar goedd, sef "Geiriau Caredig, Dwylo Caredig, Traed Caredig".

Dywedodd aelodau'r CYSAG eu bod edmygu awyrgylch naturiol a hamddenol yr ysgol ac roedd wedi bod yn fraint cael sgwrs gyda'r Pennaeth, athrawon a disgyblion.

Roedd y CYSAG wedi'u hysbrydoli gyda'r modd y mae pobl ifanc yn addasu i newidiadau yn ein hysgolion ac roeddent yn gwerthfawrogi'r adborth yn dilyn yr ymweliad ag Ysgol Bodffordd. Amlygwyd y dylai'r CYSAG gael ei herio ac y dylai ddysgu o'r newidiadau y mae disgyblion yn eu profi mewn ysgolion.

Roedd aelodau'r CYSAG yn teimlo y byddai'n fanteisiol cael 'taith ddysgu' mewn ysgol uwchradd i hyrwyddo'r cydweithio rhwng y CYSAG ac ysgolion Môn. Adroddodd yr Uwch Reolwr Cynradd y bydd y 'daith ddysgu' nesaf yn digwydd yn Ysgol Gyfun Llangefni.

PENDERFYNWYD: -

- **Nodi'r wybodaeth a gyflwynwyd ar y 'Teithiau Dysgu'.**
- **Bod yr Uwch Reolwr Cynradd yn trefnu i gynnal taith ddysgu nesaf y CYSAG yn Ysgol Gyfun, Llangefni.**

5 LLEOLIADAU CREFYDDOL AC YSBRYDOL AR YNYS MÔN

Adroddodd yr Uwch Reolwr Cynradd bod y CYSAG wedi trafod y posibilrwydd o ddewis 2 neu 3 lleoliad crefyddol neu ysbrydol yn ei gyfarfod diwethaf er mwyn creu adnoddau i'w rhannu gydag ysgolion Ynys Môn.

Mewn ymateb i gais am wybodaeth, cynigodd aelodau'r CYSAG y lleoliadau isod gan roi crynodeb o'u rheswm dros ddewis y lleoliadau hyn: -

- Eglwys Unedig Noddfa, Trearddur
- Capel Rhos y Gad, Llanfairpwll
- Canolfan Geidiaid Ynys Môn, Penrhoslligwy
- Ardal Rhosyr – Eglwys Santes Dwynwen, Ynys Llanddwyn, Aberffraw
- Eglwys Niwbwrch

- Eglwys Cybi Sant, Caergybi
- Stori Cybi Sant a Sant Seiriol, Ffynnon Cybi Caergybi a Ffynnon Seiriol, Penmon
- Eglwys Llanbadrig, Cemaes
- Biwmares – Eglwys Hanesyddol; Eglwys Sant Tysilio, Porthaethwy a Llanfairpwll
- Capel Cildwrn a Chapel Penuel, Llangefni
- Eglwys Llanfigael, Llanfachraeth
- Cyfeillion Eglwysi Di-gyfaill
- Capel Ebeneser, Rhosmeirch
- Capel Seion, Llandrygarn
- Yr Eglwys Gatholig; Eglwys y Llan; Capel Mawr, Amlwch

Adroddodd aelodau'r CYSAG bod llyfrau ar gael ar leoliadau crefyddol ar Ynys Môn. Awgrymwyd y dylid gweithio gyda'r gwasanaeth llyfrgelloedd ac archifau i greu pecynnau gwybodaeth. Nodwyd bod aelod staff o'r Prosiect Pererin yn gweithio ar adnoddau ar gyfer ysgolion Ynys Môn, yn cynnwys Sant Seiriol a Chybi Sant.

Adroddodd yr Uwch Reolwr Cynradd y byddai'n cysylltu â staff y Gwasanaeth Archifau i ofyn am help i gasglu a chyflwyno gwybodaeth ar leoliadau crefyddol ac ysbrydol. Yna, bydd cyfle i'r CYSAG roi barn ar y pecynnau i ysgolion a'u cymeradwyo maes o law.

PENDERFYNWYD y bydd yr Uwch Reolwr Cynradd yn cysylltu â'r Gwasanaeth Archifau a Llyfrgelloedd i drafod a pharatoi adnoddau'r CYSAG ar gyfer ysgolion.

6 AELODAETH A CHYFANSODDIAD Y CYD-BWYLLGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL (CYSAG)

Adroddodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc am y newidiadau deddfwriaethol yn sgil Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021. Mae'r gofyniad i awdurdod lleol sefydlu CYSAG wedi cael ei ddisodli gyda'r gofyniad i gynnwys Cyngor Ymgynghorol Sefydlog (CYS) ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM). Dywedodd y Cyfarwyddwr bod briff y CYS yn fwy eang na'r CYSAG a hynny am ei fod yn cynnwys nid yn unig crefydd, ond crefydd, gwerthoedd a moeseg o fewn Fframwaith y Cwricwlwm newydd i Gymru. Mae cyfansoddiad y CYS yn wahanol oherwydd mae'n rhaid iddo gynnwys cynrychiolwyr sydd ag argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol.

Ym mis Mawrth 2022 cyflwynwyd adroddiad i'r CYSAG a oedd yn awgrymu y dylid gwahodd aelod o Ddyneiddwyr y DU i ymuno â'r CYSAG. Yn dilyn y cyfarfod hwnnw, gofynnwyd am gyngor cyfreithiol a phenderfynwyd y dylid adolygu aelodaeth y CYSAG.

Adroddodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc bod Swyddogion o'r Gwasanaeth Dysgu wedi casglu a dadansoddi gwybodaeth ar wahanol grwpiau crefyddol ar Ynys Môn. Anfonwyd gohebiaeth at y grwpiau hyn yn gofyn iddynt rannu gwybodaeth am nifer eu haelodau, ac mae'r ymatebion wedi'u cynnwys yn yr

adroddiad. Nodwyd nad yw'r data'n gyflawn. Er hynny, fe'i defnyddiwyd i gynnig argymhelliad i'r Cyngor Sir i fwrw 'mlaen â'r mater hwn.

Gofynnwyd i'r CYSAG ystyried yr argymhellion yn yr adroddiad, h.y. i barhau i gynnig sedd i'r chwe enwad Cristnogol, y grefydd gryfaf ar Ynys Môn (51.5%). Hefyd, bod sedd yn cael ei chynnig i gynrychiolydd o'r Tystion Jehova, y Dyneiddwyr ac Islam. Cynigir y bydd y newid yn sicrhau cynrychiolaeth deg o ran yr enwadau Cristnogol, crefyddau eraill ac argyhoeddiadau anghrefyddol, ac y bydd yn cydymffurfio â'r gofynion statudol.

Bu i aelodau'r CYSAG amlygu anghysondebau o ran niferoedd yr aelodau sy'n cynrychioli'r enwadau Cristnogol. Bu i aelodau'r CYSAG ddarparu'r diweddariad a ganlyn: -

- Roedd gan yr Eglwys Bresbyteraidd yng Nghymru 962 aelod yn 2022.
- Mae'r ffigwr a ddarparwyd ar gyfer yr Eglwys Gatholig yn cynrychioli nifer y mynychwyr ar un diwrnod o'r flwyddyn ac nid yw'r ffigwr yn adlewyrchu nifer aelodau'r Eglwys Gatholig.
- Mae gan Undeb Bedyddwyr Cymru 28 aelod ychwanegol o Undeb Bedyddwyr Prydain Fawr ac nid yw'r rhain wedi cael eu cynnwys yn y ffigurau.

Roedd aelodau'r CYSAG yn poeni am y ffigurau a ddarparwyd ar gyfer yr Eglwys Cristnogol, yn enwedig yr Eglwys Bentecostaidd a'r Eglwys Arloesi (Pioneer Church), y gellid eu labelu'n eglwys carismataidd, gyda nifer o aelodau gweithgar iawn. Amlygwyd y byddai'r ffigurau ar gyfer yr eglwys hyn, pe byddent yn cael eu cyfuno, yn uwch na'r ffigurau ar gyfer y cynrychiolwyr Cristnogol presennol sydd wedi cael eu rhestru yn yr adroddiad.

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â newid cyfansoddiad y CYSAG i sicrhau mwy o gydraddoldeb ac amrywiaeth. Awgrymwyd y dylid edrych ar aelodaeth bresennol y CYSAG ac ystyried gwahodd gwahanol eglwys gyda mwy o aelodau i ymuno â'r CYSAG.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc y byddai'n hapus i ofyn am ragor o gyngor cyfreithiol ar y mater hwn a chynnal adolygiad maes o law yn sgil y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfarfod heddiw mewn perthynas â'r enwadau crefyddol sy'n cael eu cynrychioli ar y CYSAG ar hyn o bryd.

PENDERFYNWYD: -

- **Bod y CYSAG yn argymhell bod y Cyngor llawn yn cytuno i addasu enw'r CYSAG i CYS a bod ei Gylch Gorchwyl yn cael ei gynnwys yng Nghyfansoddiad y Cyngor gan y Swyddog Monitro, yn unol â'r gofyniad cyfreithiol ar gyfer Y CYS.**
- **Bod y Cyngor Sir yn cymryd camau priodol er mwyn sicrhau bod yr aelodaeth y CYS yn gymesur â chryfder pob crefydd, enwad, neu argyhoeddiad athronyddol anghrefyddol, yn ei ardal leol;**

• Bod y Cyngor llawn, yn ei gyfarfod ar 7 Mawrth 2024, yn cytuno bod aelodaeth y CYS yn cynnwys cyfanswm o 9 sedd, yn cynnwys 6 sedd ar gyfer yr aelodau presennol a 3 sedd ychwanegol newydd, fel a ganlyn: -

- Dyneiddwyr y DU
- Islam
- Tystion Jehova

• Bod adolygiad pellach yn cael ei gynnal o'r seddi Cristnogol presennol (gan felly eithrio'r Tystion Jehova o'r ymgynghoriad nesaf) yn dilyn sylwadau a wnaethpwyd pan ymgynghorwyd gyda'r CYSAG a'r ffigyrau sydd wedi dod i law.

7 UNRHYW FATERION ERAILL

Adroddodd yr Uwch Reolwr Cynradd ei fod yn paratoi Adroddiad Blynyddol drafft a fydd yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod nesaf y CYSAG.

8 CYFARFOD NESAF

Nodwyd y bydd cyfarfod nesaf y CYSAG yn cael ei gynnal Ddydd Mercher, 17 Gorffennaf 2024 am 2:00 pm.

Daeth y cyfarfod i ben am 12:40 pm

**CYNGHORYDD NON DAFYDD
CADEIRYDD**